

CABINET CYNGOR GWYNEDD



Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|----------------------------|--|
| Dyddiad y cyfarfod: | 30 Mawrth 2021 |
| Aelod Cabinet: | Y Cyngorydd Gareth Thomas |
| Swyddog Cyswllt: | Roland Evans |
| Rhif Ffôn Cyswllt: | 01286 679 450 |
| Teitl yr Eitem: | Egwyddorion Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd |

1. Y Penderfyniad a Geisir

Cytuno ar Egwyddorion Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ar sail drafft er mwyn cychwyn ar broses ymgynghori arnynt gyda phobl a busnesau Gwynedd.

Cytuno i barhau trafodaethau ar strwythur i weithredu'r egwyddorion i'r dyfodol gyda Pharc Cenedlaethol Eryri ac unrhyw bartner perthnasol arall.

2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

Mae'r maes twristiaeth wedi bod yn derbyn sylw gan y Cyngor fel rhan o flaenoriaethau Cynllun Gwynedd.

Mae nifer o drafodaethau wedi eu cynnal i ddatblygu Egwyddorion Economi Ymweld newydd ar gyfer y sir.

Mae'r Cyfnod Covid-19 ar effaith mae'n ei gael ar yr economi ymweld yn lleol wedi atgyfnerthu'r angen i adolygu a chytuno ar egwyddorion newydd ar gyfer y dyfodol.

3. CYFLWYNIAD

3.1. Cyn y cyfnod Covid-19, roedd y sector twristiaeth wedi tyfu i fod yn cyfrannu dros £1.35bn i economi Gwynedd ac yn cyflogi dros 18,200 o bobl gyda 7.81m o ymwelwyr yn ymweld yn flynyddol. Mae hyn wedi ei selio ar ddata o fodel 'STEAM' (Scarborough Tourism Economic Assessment Monitor) sy'n cyfrifo gwerth y sector twristiaeth i ardal gydag amrywiol fformiwlâu a setiau gwybodaeth.

3.2. Er ei fod yn sector pwysig, mae'r data STEAM hefyd yn amlygu bod lefelau cyflog yn isel o fewn y sector yng Ngwynedd o'i gymharu a sectorau eraill ac ardaloedd eraill.

3.3. Mae'r cyfnod Covid-19 wedi amlygu rhai materion sydd angen sylw, yn enwedig o ran diffyg amrywiaeth yn economi wledig y sir gyda gor-ddibyniaeth ar dwristiaeth mewn rhai ardaloedd. Yn ogystal mae pryderon mewn rhai rhannau o Wynedd am ddiffyg balans twristiaeth sy'n creu pwysau cynyddol ar y prif botiau mêl ac effaith hynny ar gymunedau a'r Gymraeg.

3.4. Fel rhan o'r broses o ddatblygu Egwyddorion Economi Ymweld Cynaliadwy drafft i Wynedd, ymgymerwyd a'r gweithgareddau canlynol:

- Ystyriaeth o enghreifftiau o flaenoriaethau ac egwyddorion twristiaeth mewn ardaloedd eraill

- Trafodaethau a gweithdai gyda'r Tîm Arweinyddiaeth
- Trafodaethau gyda'r sector a'r Bartneriaeth Rheolaeth Cyrchfan
- Gweithdai gydag Aelodau'r Cyngor a Pharc Cenedlaethol Eryri
- Trafodaethau gyda Chroeso Cymru a phartneriaid allweddol
- Grwpiau ffocws gyda chynrychiolwyr o'r sector
- Gweithdy pellach gydag Aelodau'r Cyngor a'r Parc Cenedlaethol

3.5 Wrth edrych i lunio ein hegwyddorion ar gyfer y dyfodol, rhoddwyd ystyriaeth i ddiffiniad o dwristiaeth cynaliadwy neu gyfrifol Sefydliad Twristiaeth y Byd y Cenedloedd Unedig (UNWTO):

“Twristiaeth sy’n cymryd llawn ystyriaeth o’i effaith economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol presennol ac i’r dyfodol, gan ymateb i anghenion ymwelwyr, y diwydiant, yr amgylchedd a chymunedau lleol”.

3.6 Yn ôl y UNWTO dylai twristiaeth gynaliadwy neu gyfrifol:

- Wneud y defnydd gorau o adnoddau amgylcheddol sy’n ran mor allweddol o ddatblygiad twristiaeth, gan gynnal prosesau ecolegol hanfodol a chynorthwyo i warchod treftadaeth naturiol a bioamrywiaeth
- Barchu hynodrwydd cymdeithasol-ddiwyllynnol cymunedau, warchod eu treftadaeth ddiwylliannol adeiledig a byw a’u gwerthoedd traddodiadol, a chyfrannu at ddealltwriaeth a goddefgarwch rhyng-ddiwyllynnol;
- Sicrhau gweithgaredd economaidd cynaliadwy a hir-dymor, gan ddarparu buddion cymdeithasol-economaidd i holl randdeiliaid wedi’ ddsbarthu’n gyfartal yn cynnwys cyflogaeth sefydlog a chyfleon i ennill incwm a gwasanaethau cymdeithasol i gymunedau; a chyfrannu at drechu tlodi.

3.7 Yn dilyn gweithdai gydag Aelodau'r Cyngor a'r Parc Cenedlaethol ac arweinwyr busnes o'r sector a gynhaliwyd fis Chwefror 2020 i ystyried y bygythiadau a'r cyfleon, gellir ceisio crynhoi'r materion yn fras fel a ganlyn:

- Cefnogi'r Sector i ddatblygu fel rhan o'r Economi Sylfaenol a chryfhau cadwyni cyflenwi lleol
- Dathlu hynodrwydd Gwynedd a'r Iaith Gymraeg
- Cymunedau Byw a Chynaliadwy gydag Isadeiledd safonol i bawb a threfn gynllunio briodol
- Gwella Gwerth y sector a gyrfaoedd cynaliadwy gyda chyflog da i bobl Gwynedd trwy'r flwyddyn
- Sicrhau bod Gwynedd yn elwa o'r twristiaid sy'n ymweld – treth / ardoll + hyrwyddo mentro i'r sector
- Sicrhau gwarchod a chynnal ein amgylchedd a bywyd gwyllt eithriadol
- Gweithio mewn partneriaeth
- Cyd-bwysedd economi – amgylchedd – cymunedau

4. RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

- 4.1. Yn dilyn y trafodaethau sydd wedi eu cynnal, cyflwynir gweledigaeth newydd ar gyfer yr economi ymweld yng Ngwynedd ar gyfer y dyfodol.
- 4.2. Yn ogystal a gweledigaeth newydd, mae egwyddorion ac is-egwyddorion hefyd wedi eu llunio ar gyfer gosod cyfeiriad i'r economi ymweld yng Ngwynedd i'r dyfodol. Mae'r egwyddorion yn gosod allan y math o economi ymweld yr ydym am ei weld yng Ngwynedd.
- 4.3. Mae'r egwyddorion wedi eu datblygu gyda mewnbwn Aelodau'r Cyngor a Pharc Cenedlaethol Eryri, ac aelodau o'r sector twristiaeth.
- 4.4. Gweledigaeth ddrafft:

“Economi Ymweld er budd a lles pobl Gwynedd”

4.5. Egwyddorion drafft:

- 4.5.1. Mae Cyngor Gwynedd yn cefnogi economi ymweld sy'n dilyn egwyddorion Twristiaeth Cynaliadwy Sefydliad Twristiaeth y Byd y Cenhedloedd Unedig.
- 4.5.2. Mae Cyngor Gwynedd yn cefnogi economi ymweld sy'n:
 - **Dathlu, parchu a gwarchod ein cymunedau, iaith, diwylliant a threftadaeth;**
 - **Cynnal a pharchu ein hamgylchedd;**
 - **Sicrhau bod cymunedau Gwynedd yn cael mwy o fantais nac unrhyw anfantais**

4.6. Mae'r 3 prif egwyddor yn cynnwys is-egwyddorion blaenoriaeth sy'n gosod cyfeiriad pellach.

Dathlu, Parchu a Gwarchod ein Cymunedau, Iaith, Diwylliant a Threftadaeth

- Economi ymweld ym mherchnogaeth ein cymunedau ac sy'n hybu balchder bro
- Economi ymweld sy'n arwain mewn Treftadaeth, Iaith, Diwylliant ac Awyr Agored


Cynnal a Pharchu ein Hamgylchedd

- Economi ymweld sy'n parchu ein hamgylchedd naturiol ac adeiledig ac yn ystyried goblygiadau datblygiadau'r economi ymweld a'r ein hamgylchedd heddiw ac i'r dyfodol
- Economi ymweld sy'n arwain mewn datblygiadau ac isadeiledd cynaliadwy a charbon isel.

Sicrhau bod cymunedau Gwynedd yn cael mwy o fantais nac anfantais

- Economi ymweld sy'n sicrhau bod isadeiledd ac adnoddau'n cyfrannu at les y gymuned trwy'r flwyddyn
- Economi ymweld sy'n ffynnu er lles pobl a busnesau Gwynedd ac sy'n cynnig swyddi da i bobl leol trwy'r flwyddyn
- Economi ymweld sy'n hyrwyddo perchnogaeth leol, yn cefnogi cadwyni cyflenwi a chynnyrch lleol
- Economi ymweld sy'n gwella ansawdd y profiad a'r cynnig i bawb.

4.7 Gellir darlunio'n hegwyddorion ar gyfer economi ymweld cynaliadwy i'r dyfodol ar sail model cyd-ddibynnol gyda Lles Pobl Gwynedd yn ganolog:



5. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

- 5.1. O gymeradwyo'r egwyddorion economi ymweld mewn drafft ar gyfer ymgynghori yn ehangach arnynt, y bwriad fyddai cynnal ymarferiad ymgysylltu efo'r cyhoedd, busnesau a phartneriaid allweddol.
- 5.2. Yn dilyn y broses ymgysylltu, bwriedir mabwysiadu'r egwyddorion yn derfynol gan y Cabinet.
- 5.3. Gwireddu'r egwyddorion yma fydd yn bwysig a'u rhoi ar waith mewn partneriaeth gyda'r Parc Cenedlaethol, y sector a chymunedau Gwynedd. Er mwyn gwneud hynny, bydd y Cyngor yn datblygu Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd fydd yn cyfrannu at Fframwaith Adfywio Gwynedd.
- 5.4. Wrth fynd ati i ymgynghori ar yr egwyddorion drafft, bydd angen parhau i ddatblygu trefniadau i weithredu'r egwyddorion mewn partneriaeth gyda Pharc Cenedlaethol Eryri ac unrhyw bartner arall.

| Dyddiad | Mater |
|----------------------------|--|
| Ebrill – Mai 2021 | Ymgynghoriad gyda phrif bartneriaid o'r sector cyhoeddus Adrodd parhaus i'r Grŵp Rheolaeth Cyrchfan + trwy'r bwletin cefnogi busnes |
| Mehefin – Medi 2021 | Ymgynghoriad gyda busnesau, cymunedau a phobl Gwynedd |
| Yr Hydref | Cynhadledd Economi Ymweld Gwynedd Ymgynghori pellach Adroddiad er cymeradwyaeth y Cabinet |
| 2022 | Lansio Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd |

6. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWDY CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Mae llawer o ymgynghori wedi cymryd lle wrth ddatblygu'r egwyddorion economi ymweld cynaliadwy drafft.

Cynhaliwyd sesiynau ymgynghori efo'r sector twristiaeth, Aelodau'r Cyngor a Pharc Cenedlaethol Eryri, yn ogystal â Aelodau Senedd Cymru ac Aelodau Seneddol a Chroeso Cymru.

Barn Y Prif Swyddog Cyllid:

Tra mae'r sector twristiaeth yn cyfrannu'n sylweddol i'r economi leol, nid yw'r penderfyniad yma ar yr egwyddorion i ymgynghori arnynt am greu ymrwymiad ariannol i'r Cyngor.

Barn y Swyddog Monitro:

Mae'r argymhellion yn yr adroddiad yn cynnig sail ar gyfer proses ymgynghori briodol. Dim sylwadau pellach i'w ychwanegu ynglŷn a phriodoldeb.

Barn Aelod Lleol: Dim yn fater lleol, ond sesiynau ymgynghori wedi eu cynnal ac yn agored i holl Aelodau'r Cyngor.